Status: *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 Rhif 476 (Cy. 118)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2022

Gwnaed - - - -	*25 Ebrill 2022*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -	*27 Ebrill 2022*
Yn dod i rym - -	*20 Mai 2022*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 10(4) a 187(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 20 Mai 2022.

Diwygiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017

2. Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017(**2**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliad 3.

3. Yn rheoliad 10(1) (terfyn amser ar gyfer cyflwyno datganiadau blynyddol)—

(a) yn lle "2019-2020 neu 2020-2021" rhodder "2019-2020, 2020-2021 neu 2021-2022";

(b) yn lle "26 Mai 2022" rhodder "31 Hydref 2022".

(**1**) 2016 dccc 2; *gweler* y diffiniad o "a ragnodir" a "rhagnodedig" yn adran 189.

(**2**) O.S. 2017/1097 (Cy. 227), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/233 (Cy. 52), 2020/486 (Cy. 111) ac O.S. 2021/395 (Cy. 126).